

Diweddariad Llechi Cymru Medi 2026



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE



AMGUEDDFA
CYMRU



Cynnwys

Croeso	1.
1. Dyffryn Ogwen	3.
2. Bro Peris	5.
3. Dyffryn Nantlle	7.
4. Bro Ffestiniog	8.
5. Ardal Porthmadog	9.
6. Bro Dysynni	9.
7. Digwyddiadau i Ddod a Gwybodaeth Bellach	10.



Croeso

Croeso i'n diweddariad chwarterol Medi 2026!


Dathlu'r Dirwedd Llechi - ymunwch efo ni i glywed am ddatblygiadau gan Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru a'n partneriaid: **Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Dydd Iau 22 Hydref 2026, 5.00 - 7:15yh. Te a choffi a drysau'n agor am 4.30yh.** Cyfle i glywed am brosiectau cyfalaf sylweddol, gwaith cadwraeth, gweithgareddau efo cymunedau ac ysgolion. Stondinau partneriaid llechi a pherfformiad gan y cerddor Geth Tomos. Croeso cynnes i bawb, a bwyd blasus. **AM DDIM**, ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, cofrestrwch erbyn 15 Hydref drwy [Eventbrite](#), neu ebostio llechi@gwynedd.llyw.cymru.

Mae ein **adolygiad o gynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd** bellach wedi'i gwblhau. Cliciwch ar y dolenni isod am ragor o wybodaeth:

[Adolygiad Cynllun Rheoli STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 2026](#)

[Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu STyB 2020 - 2025](#)

Gyda'r Amgueddfa Lechi ar gau tra bod y prosiect cyffrous ac uchelgeisiol i ail-ddatblygu'r safle ar waith, gwelwyd cyfle i **hyrwyddo'r holl arlwy i ymwelwyr mewn lleoliadau ar draws y STyB** er mwyn lledaenu'r budd economaidd. Comisiynwyd Cwmni Alaw a Rhys Iorwerth i greu erthyglau i apelio at wahanol gynulleidfaoedd wedi ei gefnogi gan ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol:



Cliciwch isod i weld yr erthyglau:

[Tirwedd Llechi Cymru – atyniadau'r haf](#)

[Bro'r llechi: y fro i'r teulu drwy'r haf](#)

[Haf llawn egni ym mro'r llechi](#)

[Diwydiant fu'n creu diwylliant](#)

Bu'r Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau yn creu **adnoddau newydd ar gyfer ysgolion** sydd yn dilyn themâu 'Lluniaeth a Llesiant y Chwarelwyr', a 'Dyfeisiadau a Doniau'. Gellir lawrlwytho 'r pecynnau oddi ar ein gwefan yn fuan. Mae'r adnoddau eraill ar gael ar wefan Llechi Cymru, [Casgliad y Werin](#) a YouTube.



Pen-blwydd hapus prosiect LleCHI LleNI! Roedd prosiect cymunedol y STyB, a ariennir trwy Gronfa'r Loteri Treftadaeth a phartneriaid Llechi Cymru, yn dathlu penblwydd yn ddyflwydd ym mis Medi.

Fel rhan o'r prosiect, dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi cymryd rhan mewn **237** o ddigwyddiadau i ddathlu ein treftadaeth chwarelyddol, gofalu am y dirwedd, datblygu sgiliau yn ein cymunedau ac i annog llesiant.

Mae **5,759** o bobl wedi cymryd rhan yn y prosiect hyd yma, gan gynnwys **3,311** o blant a phobl ifanc. Mae rhaglen ysgolion LleCHI LleNI wedi cynnwys **93** o weithdai mewn **22** o ysgolion ac mae wedi cael ei chefnogi gan **111** o adnoddau dysgu ac addysg sydd wedi'u creu fel rhan o'r prosiect.

Rydym wedi dyrannu gwerth **dros £127k** o grantiau i **22** o grwpiau cymunedol yng Ngwynedd. Edrychwn ymlaen at y tair blynedd nesaf!



1. Dyffryn Ogwen

Mae gwaith adnewyddu **Yr Hen Bost**, Bethesda yn parhau i wneud cynnydd ardderchog, gyda newidiadau mawr bellach yn amlwg ar yr adeilad. Mae'n gyffrous gweld y prosiect yn dod yn fyw ac yn dechrau trawsnewid y safle.

Yn dilyn agoriad swyddogol Pont Sarnau (Bethesda), mae **bwrdd gwybodaeth newydd** bellach wedi'i greu a'i osod. Mae'r bwrdd yn dathlu hanes yr hen bont ac yn cynnig cyfle i drigolion ac ymwelwyr ddysgu mwy am dreftadaeth yr ardal. Diolch i Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen am eu cefnogaeth.


Mewn partneriaeth â Grŵp Gweithredu Gwelliannau Bethesda, mae lleoliad **Llys Dafydd** wedi'i ddewis ar gyfer inserts llechi 'Pesda'. Bydd y rhain yn ychwanegu nodwedd unigryw a balch i ganol y dref, gan adlewyrchu cymeriad a hunaniaeth leol Bethesda.

Mae'r gwaith cadwraeth yn dirwyn i ben ar **Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn**, fe fydd gwaith dehongli ac arwyddo yn mynd rhagddi dros y misoedd nesaf i gwblhau'r prosiect yma. Cynhelir digwyddiad dathlu yn Neuadd Ogwen ar 29 Medi ar y cyd â Phartneriaeth Ogwen a Menter Môn. Ebostiwrch gofod@ogwen.org i archebu eich lle.

Diolch i bawb ddaeth i Neuadd Ogwen ar 22 Mehefin i ddysgu mwy am y Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru yn ein **cwrs i staff a gwirfoddolwyr o fentrau lleol a busnesau** sy'n gweithio efo'r cyhoedd.



Cwrs i fusnesau



Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn

Bu LleCHI LleNI yn cefnogi prosiect cyffrous Storiell ar y cyd efo **Ysgol Dyffryn Ogwen** i ymgysylltu treftadaeth weledol unigryw Bethesda a'i gyflwyno i gynulleidfaoedd newydd drwy archwilio agweddau entrepreneuraidd i'r dirwedd llechi. Can ddefnyddio murlun a grëwyd gan yr artist Nader Kohdobi (Mr Kobo) fel canolbwynt, dysgodd y plant sut i wneud gwaith ymchwil, creu codau QR ac AR, a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn artist cyfoes.

Cynhaliwyd cwrs **Cyflwyniad i Crawiau / Pileri** gyda Kehoe Countryside Services yn Nhal y Bont ar 16 Mehefin fel rhan o gynllun Sgiliau Traddodiadol ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llechi Cymru.



Cyflwyniad i Crawiau / Pileri



Gweithgareddau. Llun: Katherine Betteridge
@katherinebetteridgecreatix

Cynhaliwyd **cyfres o weithgareddau amrywiol** yn yr ardal yn seiliedig ar lyfr a ysgrifennwyd gan chwarelwr lleol, Thomas Parry, o'r enw Llysieuath Feddygol (1862) a'i rysait am yr 'Eli Gwyrdd'. Roedd y gyfres yn cynnwys gweithdai meistr mewn ymchwil hanesyddol, fforio a chreu meddyginiaeth, adrodd straeon a barddoni, yn ogystal â thrafodaeth am hanes meddyginiaeth gynnar Cymru – oll dan ofal Claire Mace, ac mewn partneriaeth ag Archifau Prifysgol Bangor, Ysgubor Moelyci, Partneriaeth Ogwen a Neuadd Ogwen.



2. Bro Peris

Mae prosiect ailddatblygu'r **Amgueddfa Lechi** yn mynd o nerth i nerth. Bydd gwaith cadwraeth ar draws y safle yn diogelu nodweddion unigryw ac arbennig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r siop newydd a'r adeilad croeso yn dechrau cymryd siâp. Ym mhen deheuol y safle, mae gwaith yn dechrau i baratoi'r tir ar gyfer caffi a chanolfan ddysgu newydd.

Dros yr haf, bu timau ymgysylltu, dehongli a dysgu yn gweithio ar draws Safle Treftadaeth y Byd i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect a chasglu straeon ar gyfer arddangosfa newydd Porth UNESCO, gan ymgysylltu â mwy na 2,500 o bobl.



Lluniau: Amgueddfa Llechi



Mae gwaith yn mynd rhagddi i uwchraddio Sied Fire Queen er mwyn paratoi i groesawu'r injan yn ôl i **Barc Padarn** yn fuan flwyddyn nesaf. Yn dilyn y gwaith cadwraeth i'r sied, fe fydd gwaith dehongli yn cael ei gwblhau i rannu stori'r Injan. Fe fydd rhai ohonoch wedi gweld fod gwaith cadwraeth hefyd ar waith ar adeilad Hafod Owen ym Mharc Padarn, fe fydd y gwaith yma yn sicrhau fod yr adeilad yn ddiogel ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod mis Balchder roedd prosiect LleCHI LleNI yn falch o'r cyfle i gynnal **Taith Gerdded Llechi'r Enfys** efo Ailsa Orlik yng Nghoed Dinorwig.



Taith Llechi'r Enfys

Fel rhan o ddatblygiad **gwaith celf gymunedol unigryw i Lanberis**, bu'r artist **Howard Bowcott** yn gweithio gyda'r gymuned leol i gasglu syniadau a straeon a fyddai'n llywio'r prosiect. Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod cerflun trawiadol 'Darllen y Graig' bellach wedi'i osod wrth faes parcio Ger y Llyn, gan greu nodwedd newydd arbennig sy'n dathlu treftadaeth a hanes yr ardal, yn ogystal â bywyd domestig y chwarelwyr.



Bydd cynnwys dehongli'r gwaith celf ar gael yn fuan ar wefan Llechi Cymru, gan roi cyfle i drigolion ac ymwelwyr ddysgu mwy am yr ysbrydoliaeth a'r ystyr y tu ôl i'r cerflun.

Mae gwaith hefyd ar droed i gwblhau'r safle, gyda bwrdd gwybodaeth a meinciau newydd wrthi'n cael eu paratoi i'w gosod ger y gwaith celf. Bydd hyn yn creu lle croesawgar i bobl aros, mwynhau'r olygfa a gwerthfawrogi'r gwaith celf.

Crëwyd ffilm i grynhoi datblygiad cerflun Howard Bowcott, sydd i'w gweld ar sianel YouTube, Llechi Cymru: [Darllen y Graig gan Howard Bowcott](#). Mae'r ffilm yn un o gyfres o raglenni byrion 'Cylchdaith Greadigol' sydd yn cael eu creu er mwyn dogfennu'r ystod eang o waith celf sydd ym mröydd Llechi'r Safle Treftadaeth y Byd.



3. Dyffryn Nantlle

Mae'r panel dehongli ar gyfer **cerfluniau Blondins Penygroes** bellach wedi'i gosod, gan ddarparu gwybodaeth am hanes ac arwyddocâd y cerfluniau i drigolion ac ymwelwyr.

Yn ogystal, mae tudalen dehongli ar gyfer y gwaith celf bellach yn fyw ar wefan Llechi Cymru, gan esbonio'r ysbrydoliaeth y tu ôl i'r cerfluniau a'u cysylltiad â threftadaeth llechi'r ardal:

[Cerflun Blondins, Penygroes | LLECHI CYMRU - WALES SLATE.](#)



Cerfluniau Blondins, Penygroes



Dro Cilgwyn efo Rhys Mwyn

Roedd yn braf gweld gymaint wedi mynychu a mwynhau'r gylchdaith gerdded am hanes **Chwarel Cilgwyn** a'r ardal efo Rhys Mwyn ar 22 Gorffennaf.

Fel rhan o brosiect ar y cyd efo Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru cafodd plant a phobl ifanc yn Dyffryn Nantlle'r cyfle i ddysgu am dechnegau archaeolegol yn **Chwarel Dorothea**. Diolch hefyd i Brosiect Dorothea, Cadw a Phrifysgol Bangor am eu cefnogaeth a chyngor.



4. Bro Ffestiniog

Diolch i **Ysgol y Moelwyn** am ein croesawu i gyflwyno'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed fel rhan o gynllun Llysgenhaddon Llechi Ifanc.

Mae gwaith ar **Gaffi Bolton a Siop Ephraim** yn parhau, gyda'r gobaith y bydd y ddwy wedi'i chwblhau yn y misoedd nesaf. Edrychwn ymlaen at weld y datblygiad yn dod yn fyw dan arweiniad Antur Stiniog.

Bu **Chris Baglin** y storïwr a'r diddanwr yn llunio sgript sioe newydd sbon ar gyfer prosiect LleCHI LleNI, sy'n portreadu'r chwarelwr 'Dafydd Jôs'. Diddanodd dorf oedd wedi mynychu Gŵyl Hwyl yn y Parc yn Nhanygrisiau, Ffestiniog. Bydd y cymeriad ar grwydr yn cynnal perfformiadau yn y bröydd llechi dros y flwyddyn nesaf.



Chris Baglin



Falcon Hildred a Carole

Bydd arddangosfa o waith celf yr artist adnabyddus **Falcon Hildred** yn Llyfrgell Blaenau Ffestiniog dros dymor yr Hydref. Casgliad fydd yn dathlu'r dref a'i statws fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Bydd yr arddangosfa ar agor i bawb yn cychwyn ddiwedd Hydref. Crëwyd ffilm fer i ddogfennu ei waith arbennig: [cliciwch yma](#).

Mae gwaith cadwraeth ar **Felin Maenofferen** yn parhau, a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol wedi eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf i roi cyfle i drigolion lleol ddysgu mwy am y gwaith a rhannu syniadau am ddefnydd y safle i'r dyfodol.

Mae **Yr Aelwyd** yn mynd o nerth i nerth yn y dref, ac yn parhau i gynnal gweithgareddau di-ri a gofod diogel i bobl ifanc y fro. Mae cynllun arloesol ar y gweill ar wal allanol Yr Aelwyd ble fydd darn o waith unigryw yn cael ei ddatblygu. Fe fydd murlun '**Celf Glaw**' werth ei weld...pan mae hi'n bwrw! Fe fydd y murlun ond yn weladwy pan mae'r wal yn wlyb!



5. Ardal Porthmadog

Bu'r cerddor Geth Tomos o gwmni **Cerdd-amdani** mewn nifer ysgol yn yr ardal i gyd-gyfansoddi caneuon gyda'r plant. Ffordd hwyliog i ddysgu am ein diwylliant a threftadaeth leol. Dyma un o'r caneuon a grëwyd gan Ysgol y Gorlan, Tremadog: [cliciwch yma](#).

Cafwyd sioe arbennig gan **Dafydd Jôs y chwarelwr (Chris Baglin)** ar Wyl y Banc, yn y Ganolfan ym Mhorthmadog, gan gynnig y cyfle i blant ddysgu trwy glywed a chymryd rhan mewn storïau a chaneuon hwyliog.



Fideo Cerdd-amdani



Inserts Llechi Tywyn

6. Bro Dysynni

Hyfryd oedd gweld brwdfrydedd plant **Ysgol Penybryn** wrth iddynt gyfansoddi a chanu mewn sesiwn gyda Cerdd-amdani ar 8 Gorffennaf.

Bu cyfle i **ddysgwyr Cymraeg** yr ardal ddod ynghyd i ddysgu mwy am dreftadaeth llechi a datblygu eu sgiliau iaith mewn sesiwn ar y cyd rhwng prosiect LleCHI LleNI a Llyfrgell Tywyn ar 8 Medi.

[Crëwyd ffilm fer](#) yn dathlu'r gwelliannau canol tref sydd wedi digwydd yn Nhywyn fel rhan o fuddsoddiad Cronfa Ffyniant Gyffredin yn yr ardal.

Mae bwrdd gwybodaeth wedi ei osod yn rhoi cefndir a chyd-destun i'r wagan lechi yng nghanol **Tywyn**, yn ogystal â'r geiriau gwreiddiol gan Manon Steffan Ros sydd wedi eu naddu ar yr inserts llechi, a'r wagan ei hun.

7. Digwyddiadau i Ddod a Gwybodaeth Bellach

29/09/2026	Digwyddiad dathlu Ysbyty Chwarel Penrhyn a premier ffilm Ein Hanes Ni Neuadd Ogwen, Bethesda
30/09/2026	Cyflwyniad i'r Gymraeg a Straeon Llechi Ffestiniog a Phorthmadog Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog
06/10/2026	Sesiwn 1: Caban Rhithiol: Creu "Hen Benillion" Newydd efo Meirion MacIntyre Huws, Zoom (Sesiwn gyfansoddi barddoniaeth Gymraeg)
09/10/2026	Cloddio a Mwyngloddio yn Nyffryn Nantlle: Taith hanesyddol efo Dr Dafydd Gwyn (Gŵyl Cynhaeaf Arall). Talysarn
22/10/2026	Dathlu'r Dirwedd Llechi: Diweddariad Blynyddol Llechi Cymru Plas Tan y Bwlch, Maentwrog
26/10/2026	Gweithdy creadigol i blant yng nghwmni Jwls Williams yn cymryd ysbrydoliaeth o arddangosfa Falcon Hildred. Llyfrgell Blaenau Ffestiniog
28/10/2026	Storiâu a Chwedlau, hud a lledrith Calan Gaeaf efo Mair Tomos Ifans i deuluoedd a phlant oedran cynradd. Chwarel Lechi Llanfair. Harlech
30/10/2026	Gweithdy creadigol i oedolion, yng nghwmni Jwls Williams yn cymryd ysbrydoliaeth o arddangosfa Falcon Hildred. Llyfrgell Blaenau Ffestiniog
31/10/2026	Dro Meddylgarwch Calan Gaeaf efo Leisa Mererid. Lôn Las Ogwen
03/11/2026	Sesiwn 2: Caban Rhithiol: Creu "Hen Benillion" Newydd efo Meirion MacIntyre Huws. Zoom
25/11/2026	O'r Llechi i'r Lli: sgwrs yn seiliedig ar y teithiau cerdded, Y Ganolfan, Llanberis
26/11/2026	Noson Canu Shantis Cymraeg efo Gwilym Bowen Rhys. Llofft, Felinheli
01/12/2026	Sesiwn 3: Caban Rhithiol: Creu "Hen Benillion" Newydd efo Meirion MacIntyre Huws. Zoom

Edrychwch allan am ragor o wybodaeth am Agoriad Arddangosfa Falcon Hildred, Llyfrgell Blaenau Ffestiniog yn fuan hefyd!

E-bost: llechi@gwynedd.llyw.cymru. Gwefan: www.llechi.cymru.

Ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch ni ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (cliciwch yr eiconau isod). Gwiriwch **Eventbrite** am ddigwyddiadau a gweithgareddau.

